



Coleg
Gwent



Menter ac Entrepreneuriaeth
**Adroddiad Blynyddol ar Effaith
Entrepreneuriaeth Ieuencid**
2024-2025

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo'n llawn i gynyddu a chyflymu'r broses o greu cyfleoedd mentergarwch a gwella sgiliau entrepreneuriaidd ymhlith ein dysgwyr, ar draws pob campws.

Trwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, rydym wedi cyflenwi darpariaeth gyfunol o weithgareddau wyneb yn wyneb a gweithgareddau ar-lein sydd wedi'u dylunio o amgylch meysydd Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid sef Galluogi ein haelodau staff i hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu pynciau neu eu hadrannau; Ymgysylltu dysgwyr trwy weithgareddau i helpu i ddatblygu eu galluedd entrepreneuriaidd a Rhoi'r sgiliau a'r cyfleoedd i'n dysgwyr ddatblygu a lansio eu syniadau busnes.

Dysgwyr Mentrus mewn rhifau...

4,698

o ddysgwyr wedi ymgysylltu â digwyddiadau mentergarwch

3,723

o ddysgwyr wedi'u grymuso i archwilio sgiliau entrepreneuriaidd

198

o ddysgwyr wedi cael yr offer i gymryd camau cadarnhaol tuag at hunan-gyflogaeth

20

o ddysgwyr wedi'u cefnogi i ddod yn hunan-gyflogedig

Sut rydyn ni wedi bod yn Galluogi a Chyflymu Entrepreneuriaeth Myfyrwyr:

- Cyflwynwyd gweithdai mentergarwch a chlybiau dechrau busnes ar draws pob campws gan gefnogi dysgwyr i ddatblygu cynllunio busnes ymarferol a sgiliau hunan-gyflogaeth.
- Ymgysylltwyd â thros 1,600 o ddysgwyr trwy ddigwyddiadau mentergarwch, gan gynnwys wythnos Entrepreneuriaeth Fydeang, Ffeiriau'r Glas a Ffeiriau Dilynant ar draws y campwsau.
- Galluogwyd i 200 o fyfyrwyr Safon Uwch ym Mharth Dysgu Torfaen gwblhau Tasg 2 prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol wedi'u cefnogi gan dîm estynedig o fodelau rôl Syniadau Mawr Cymru.
- Darparwyd sesiynau mentora busnes un i un a grwpiau bach i dros 30 o ddysgwyr gan arwain at lansio mentrau newydd a sawl un ohonynt yn llwyddo i ennill cymorth ariannol.
- Cefnogwyd 3 dysgwr Coleg Gwent i ennill Gwobr Tafflab glodfawr, gan gael mynediad at fentora arbenigol, cydweithredu rhwng cymheiriaid a grantiau dechrau busnes.
- Dathlwyd llwyddiant cenedlaethol trwy Fenter yr Ifanc wrth i un o'n timau Sgiliau Byw yn Annibynnol gynrychioli Cymru yn rowndiau terfynol y DU.